

EVANS, JOHN CASTELL (1844-1909), athro gwyddoniaeth

Enw: John Castell Evans
Dyddiad geni: 1844
Dyddiad marw: 1909
Priod: Jessie Evans (née Beal)
Rhiant: Catherine Evans
Rhiant: John Evans
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: athro gwyddoniaeth
Maes gweithgaredd: Addysg; Gwyddoniaeth a Mathemateg
Awduron: Thomas Richards, Evan David Jones

Ganwyd 20 Gorffennaf 1844 yng Nghastell y Waun, Tregastell, Llanuwchllyn, mab John a Catherine Evans; am dymor bu yn yr ysgol a gadwai'r **Parch. Thomas Roberts**, 'Scorpion' yn yr Hen Gapel, Llanuwchllyn, a dywedir ei fod wedi mynychu ysgol ramadeg y Bala am ryw hyd, ond nid oes gadarnhâd i hyn. Fel hogyn cyfrifid ef yn ddeallgar a chraffus tuhwnt, yn enwedig mewn rhif a mesur. Cymerodd ddiddordeb dwfn yn nhraddodiadau ei ardal a gadawodd dair cyfrol llawysgrif. Nid oes brawf iddo fod dan ddisgyblaeth yng ngholeg y Normal ym Mangor nag mewn unrhyw sefydliad arall o'r fath, ond bu'n ddisgybl a disgybl-athro yn ysgol Frutanaidd y Bala. Dywedir iddo fod yn athro yn ysgol Corwen. Bu'n athro ysgol yn Devonport o 1864, ac ar ôl priodi Jessie, merch William Henry Beal, yno yn 1868 bu'n cadw ysgol ar ei gyfrif ei hun. Erbyn 1871 yr oedd yn Harrogate.

Yr oedd y bywyd cyfyngedig hwn ymhell o fodloni ei uchelgais, ac yn y saith degau, er ei fod yn briod ac amryw blant ganddo, penderfynodd fyned i Lundain i ddyfnhau ei fyfyrddod mewn gwyddoniaeth. Erbyn 1877 yr oedd yn aelod o'r Royal College of Chemistry, ac yn dysgu eraill yn y coleg gyda hynny; yn 1878-9 yr oedd ynghanol gwaith ymchwil o dan y cemegwr enwog Syr Edward Frankland, gan drafod yn arbennig adweithiau *zinc-ethyl*; yn 1879-80 bu dros dro yn ddarlithydd mewn cemeg yn y City and Guilds Technical College yn Finsbury, gan godi'n ddiweddarach yn brif ddarlithydd yno o dan Henry Armstrong, gyda chyfrifoldeb dros fyfyrwyr y flwyddyn gyntaf; daeth yn F.C.S. yn 1880, ac yn F.I.C. yn 1888. Bu'n astudio trefniadau addysg dechnegol yn yr Almaen. Yn ddiweddarach cymerodd ofal yr hyfforddiant cemegol ar waith mewn metelau. Defnyddiai fwynau a gasglodd ef ei hun ym Mhatagonia. Cyhoeddodd yn 1902 ei gyfrol gyntaf ar *Physico-Chemical Tables*, gwaith a gydnabyddir gan yr awdurdodau fel un cynhwysfawr a manwl iawn; ysgrifennodd lyfr hefyd a enwid *A New Course of Experimental Chemistry*, (1892), a ail-argraffwyd fwy nag unwaith.

O ran argyhoeddiad Bedyddiwr ydoedd, dechreuodd bregethu gyda'r Bedyddwyr, a bu'n swyddog prysur yn achosion Seisnig Forest Gate a Ferme Park, heblaw cadw mewn cyswllt clôs â'r eglwys Gymraeg yn Castle Street. Bu farw yn Ilford, 13 Mai 1909.

Awduron

Thomas Richards, (1878 - 1962)

Evan David Jones, (1903 - 1987)

Ffynonellau

Journal of the Royal Institute of Chemistry, 1909 (Marwgoffa)

Y Greal sef Cylchgrawn Misol at wasanaeth y Bedyddwyr, 1909, 249

Seren Gomer, 1931, 116-7

Gwybodaeth oddi wrth Mr. Gwyndaf Davies, Llanuwchllyn, Llyfregellydd Sir Gaernarfon (E. J. Evans), a'r diweddar Barch. W. J. Rhys

Archifau LIGC: [NLW MSS 10567-10568C](#)

Archifau LIGC: [NLW MS 20547C](#)

Archifau LIGC: [NLW MS 20548D](#)

Cylchgrawn Llyfregell Genedlaethol Cymru xiv, i, [t.114](#)

Cronicl yr Ysgol Sabbothol, 1881, t. 216

J. V. Eyre, *Henry Edward Armstrong, 1848-1937* (Llundain 1958), 73-4, 286-7

gwybodaeth gan Iolo Francis Roberts

E. D. Jones, '[John Castell Evans \(D.W.B., 1119\)](#)', *Cylchgrawn Llyfregell Genedlaethol Cymru* 14 (1965-66), 114

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20821428](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1970

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>



Richards, T., & Jones, E. D., (1970). EVANS, JOHN CASTELL (1844-1909), athro gwyddoniaeth. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 10 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c3-EVAN-CAS-1844>

Y Bywgraffiadur

Preifatrwydd a Chwci
Hawffraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Yn ddiwydian
Llywodraeth Cymru
Supported by
Welsh Government